**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 425**
**21 Mawrth 2019, Canolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin**

**Presennol:**
**Aelodau Anweithredol y Bwrdd:**

| | |
|---|---|
| Huw Jones | (Cadeirydd) |
| Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Owen Derbyshire | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Rhodri Williams | (Aelod o'r Bwrdd) |

**Aelodau Gweithredol**
**y Bwrdd Unedol Cysgodol:**

| | |
|---|---|
| Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |

**Hefyd yn bresennol:**
**Staff S4C:**

| | |
|---|---|
| Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| Phil Williams | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Ariannol) – eitemau 7-8.1.6 |
| Catrin Hughes Roberts | (Cyfarwyddwr Partneriaethau) – eitem 6- 6.8.7 |
| Bethan C. Williams | (Cynorthwy-ydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |

## COFNODION

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Bwrdd yng nghanolfan S4C yr Egin.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2 **Cofnodion Cyfarfod Bwrdd rhif 424 a gynhaliwyd ar Chwefror 21ain, 2019**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd rhif 424 a gynhaliwyd ar Chwefror 21ain.

**Cymeradwywyd y cofnodion gan y Bwrdd.**

3. **Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod 424**

4. **Pwyntiau Gweithredu**
Nodwyd y bwriad i roi sylw estynedig i'r Pwyntiau Gweithredu yn y cyfarfod hwn, gyda'r bwriad o nodi lle roedd dal angen gweithredu ar "hen" bwyntiau ac o gytuno ar yr elfennau hynny y dylid bellach eu dileu o'r rhestr.

**1. Penodi Cadeirydd**
Nodwyd nad oedd DCMS wedi cyhoeddi'r hysbyseb swydd hyd yma, nac wedi ymateb i lythyr OE yn argymell ymestyn cyfnod y Cadeirydd o dri mis er mwyn ceisio sicrhau na fyddai S4C heb gadeirydd am gyfnod.

Mynegwyd pryder y Bwrdd nad oedd y broses benodi wedi dechrau, gan nodi na fyddai ymestyniad o 3 mis, os nad yw'r broses yn cychwyn yn fuan, gyfystyr â 3 mis ychwanegol o amser y Senedd, gan y byddai mwyafrif cyfnod yr ymestyniad yn cyd-redeg gyda *recess* y Senedd.

**8. Cytundeb Golygyddol gyda'r BBC**
Nododd OE y byddai'n trafod statws y cytundeb drafft gyda Rhodri Talfan Davies.

**10 ac 11. Datganiad Polisi Rhaglenni 2019/20 ac Adolygiad Datganiad Polisi Rhaglenni 2018/19**
Nododd AR ei bod wedi llunio Datganiad Polisi Rhaglenni drafft ar gyfer 2019/20 ond y byddai angen disgwyl nes bydd y Pwyllgor Cynnwys wedi ystyried perfformiad blwyddyn 2018/19 cyn gallu llunio Adolygiad Datganiad Polisi Rhaglenni 2018/19 a chyflwyno'r ddau ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.

**13. Ofcom**
Nododd PW fod trafodaethau'n parhau gydag Ofcom, ac ymddengys bod Ofcom yn awyddus i ddatblygu dogfen ar y cyd. Mae Ofcom yn gobeithio y bydd modd rhannu dogfen ddiwygiedig gydag S4C yn fuan.

**23. Archif a'r Llyfrgell Genedlaethol**
Roedd OE wedi cyfarfod â swyddogion y Llyfrgell, ac mae cyfarfod wedi ei drefnu gyda Pedr ap Llwyd, y Llyfrgellydd Cenedlaethol newydd. Penderfynwyd cyflwyno diweddariad i'r Bwrdd parthed trafodaethau gyda'r Llyfrgell ac opsiynau ar gyfer yr archif dapiau ym mis Mehefin, gyda diweddariad ar lafar yn ôl yr angen ym mis Ebrill.

**26. Buddsoddwyr Mewn Pobl**
Nodwyd fod Catrin Whitmore yn ymwybodol o'r awydd i weithredu'n unol ag egwyddorion BMP, a'i bod yn y broses o ddiweddaru polisïau a gweithdrefnau adnoddau dynol S4C, ac y byddai'r gwaith hwn yn ymgorffori ymarfer da BMP. Pwysleisiwyd mai'r ymarfer da oedd yn bwysig, yn hytrach nag ennill nôd BMP fel y cyfryw.

**27. Cynnwys a Pherfformiad y Gwasanaeth**
Nodwyd y bydd y cyflwyniad strategol sydd i'w gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mai yn cynnwys diweddariad parthed opsiynau ar gyfer Newyddion 9, strategaeth plant newydd, strategaeth drama newydd, opsiynau ar gyfer y ddarpariaeth chwaraeon ac opsiynau trosgynnol ar gyfer natur y gwasanaeth yn y dyfodol.

**29. Cytundeb Golygyddol gyda'r BBC**
Cyfeiriwyd at y Cytundeb Golygyddol arfaethedig gyda'r BBC, sef y cytundeb a fydd yn cynnwys manylion gweithredol darpariaeth statudol rhaglenni'r BBC i S4C, sy'n deillio o'r Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd. Roedd swyddogion wedi darparu sylwadau ar ddrafft cyntaf y cytundeb i'r BBC, ond nid oedd cynnydd pellach wedi bod.

Esboniwyd bod gweithredu'r TSA a rheoli proses mudo'r gwasanaethau darlledu technegol i Sgwâr Canolog yn cymryd blaenoriaeth o ran trafod gyda'r BBC ar hyn o bryd.

Nododd y Bwrdd bwysigrwydd sicrhau fod y Cytundeb Golygyddol arfaethedig yn cael ei gytuno.

**31. Cyfleu'n hwyr**
Nodwyd bod system newydd ar gyfer rheoli Cyfleu'n Hwyr wedi ei gyflwyno. Penderfynwyd cyflwyno diweddariad i'r Bwrdd ym mis Mehefin, ac i gylchredeg adroddiad interim sydd wedi ei baratoi gan RhB.

**4 a 6. Amrywiaeth**
Pwysleisiwyd yr angen i adrodd i'r Bwrdd yn rheolaidd ar gyflawniad S4C yn erbyn amcanion amrywiaeth S4C.

**3. Hyb Digidol**
Cyfeiriodd OE at gynlluniau digidol S4C a chysyniad yr 'Hyb Digidol', gan nodi nad oedd un diffiniad clir o bwrpas a strwythur Hyb yn bodoli ymysg rhanddeiliaid. Roedd y cynlluniau digidol sydd wedi eu cyflwyno i'r Bwrdd yn nodi strategaeth S4C o ran datblygu gwasanaethau ac isadeiledd digidol.

**7. Hirhoedledd Cyw**
Cyfeiriwyd at y pecyn o ddwsin o raglenni wedi'u hanimeiddio sydd wedi eu datblygu mewn partneriaeth â Boom er mwyn ymestyn ac elwa ar werth masnachol brand Cyw. Nodwyd fod gwerthiant masnachol a diddordeb rhyngwladol yn un ffordd o brofi a yw gwerth y brand yn parhau.

Nodwyd bod y Pwynt Gweithredu'n ymwneud gydag elfen o bryder y gall poblogrwydd a hirhoedledd brand a darpariaeth Cyw fod yn cael ei erydu dros gyfnod. Roedd Cyw yn ddeng mlwydd oed, ac roedd yn briodol i ystyried hirhoedledd a pherthnasedd y ddarpariaeth. Roedd Pwynt Gweithredu Chwefror 2018 yn nodi y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd.

Penderfynwyd y bydd y Pwyllgor Cynnwys yn ystyried hirhoedledd brand Cyw, gan dderbyn adroddiad ar y pwnc, ynghyd â chyflwyniad am ddyfodol y brand a'r cymeriadau a'r cyflwynwyr gan SWR yn ei gyfarfod ym mis Ebrill.

**8. Datblygu Strategaeth Ail-ddarllediadau**
Nodwyd y bydd Strategaeth Ail-ddarllediadau yn cael ei gyflwyno ar gyfer ystyriaeth y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Mai fel rhan o gyflwyniad Strategaeth y Dyfodol.

**10. Datblygu Strategaeth Gwobrau Rhyngwladol**
Nodwyd y bydd Strategaeth Gwobrau Rhyngwladol yn cael ei gyflwyno ar gyfer ystyriaeth y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Mai fel rhan o gyflwyniad Strategaeth y Dyfodol.

5. **Adroddiad y Cadeirydd**
Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriwyd yn benodol at y mater canlynol.

**Diweddariad parthed trafodaethau gyda'r NAO**
Cyflwynodd PW ddiweddariad parthed y trafodaethau gyda'r NAO ar gyfer trefniadau archwilio allanol S4C o 2019/20. Roedd cyfarfod pellach wedi ei gynnal gyda swyddogion yr NAO er mwyn trafod trefniadau cytundebol rhwng yr NAO, S4C a DCMS, trefniadau trosglwyddo o Grant Thornton i'r NAO, sgôp a ffioedd y gwaith archwilio, a chyfle i gyflwyno strwythur busnes S4C ac asesiad o'r risgiau strategol. Roedd yn gyfarfod cadarnhaol ac adeiladol, a bellach y mae cytundebau drafft wedi eu paratoi.

**(i) Yn dilyn y drafodaeth, cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhellion canlynol:**

**(ii) i benodi'r NAO yn archwilwyr allanol S4C ar gyfer y cyfnod 2019/20 hyd nes y bydd y ddeddfwriaeth berthnasol wedi ei diweddaru (pryd y bydd modd i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi'r NAO o dan ddarpariaethau statudol), gyda'r penodiad yn berthnasol i Grŵp S4C (sy'n cynnwys y Gronfa Gyhoeddus a holl is-gwmnïau masnachol S4C);**
**(iii) i ganiatáu mynediad i'r NAO i weithgareddau Grŵp S4C ar gyfer dibenion archwiliadau Gwerth Am Arian;**
**(iv) i awdurdodi'r Cadeirydd, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Materion Eraill a'r Prif Weithredwr:**
**(a) i gymeradwyo'r cytundeb rhwng S4C (a'r cwmnïau masnachol) a'r Ysgrifennydd Gwladol, a chytundeb rhwng S4C (a'r cwmnïau masnachol) a'r NAO ar gyfer penodi'r NAO yn archwilwyr allanol;**
**(b) i gytuno ar, a chyhoeddi, dogfen dendr ar gyfer gwasanaeth archwilio mewnol i S4C ar gyfer y cyfnod 2019/20 - 2021/22, gyda'r Pwyllgor Archwilio a Materion Eraill i ystyried unrhyw gynigion a dderbynnir ac i gyflwyno argymhelliad i'r Bwrdd (yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor);**
**(c) i gytundebu gyda Grant Thornton i barhau i gynghori ar unrhyw faterion ariannol perthnasol sydd ar y gweill ar hyn o bryd;**
**(ch) yn amodol ar gwblhau unrhyw waith o dan (c) uchod i gytuno ar, a chyhoeddi dogfen dendr maes o law ar gyfer gwasanaethau cyngor ariannol a threth ar gyfer Grŵp S4C, gyda'r Pwyllgor**

**Archwilio a Materion Eraill i ystyried unrhyw gynigion a dderbynnir ac i gyflwyno argymhelliad i'r Bwrdd; ac**

**(v) yn amodol ar (i) i (iii) uchod, i roi cyfarwyddyd i'r Bwrdd Masnachol i benodi'r NAO yn archwilwyr ar y cwmnïau masnachol yn unol â'r cytundeb arfaethedig rhwng S4C a'r NAO a DCMS.**

6. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

**Newidiadau Deddfwriaethol**

Cyflwynodd EM nodyn a ddarparwyd gan DCMS yn cynnwys cyfarwyddiadau i swyddfa'r Cwnsler Seneddol ar gyfer drafftio mesur seneddol er mwyn diweddaru'r darpariaethau statudol perthnasol yn unol ag argymhellion yr Adolygiad o S4C.

Cafwyd trafodaeth am y cyfarwyddiadau drafft, a nododd y Bwrdd eu bod yn falch o weld fod DCMS wedi llunio cyfarwyddiadau sy'n ymateb i fwyafrif argymhellion yr Adolygiad.

Nodwyd y bydd cyfle ychwanegol i drafod materion drafftio gyda DCMS a'r Cwnsler Seneddol yn dilyn drafftio'r mesur, ac yna os yw'r mesur yn cael ei gyflwyno i'r Senedd bydd hefyd gyfle i Aelodau Seneddol a fydd yn craffu'r Mesur ar y Pwyllgor Sefydlog perthnasol i gynnig gwelliannau i'r mesur.

**Statws TAW S4C**

Cyflwynwyd diweddariad parthed trafodaethau am statws TAW S4C.

**Adroddiad Cynnydd Adleoli, Cydleoli a Pharc Tŷ Glas**

Cyfeiriodd OE at ei adroddiad cynnydd misol parthed y prosiectau Adleoli, Cydleoli a Dad-gomisiynu Tŷ Glas.

Nodwyd bod y BBC wedi dod yn gyfrifol am redeg gwasanaethau technegol darlledu S4C o dan ddarpariaethau'r TSA ar 25 Chwefror, a throsglwyddwyd 34 aelod o staff S4C i'r BBC. Bydd y misoedd nesaf yn gyfle i S4C a'r BBC ddatblygu dulliau newydd o gydweithio o ran darparu'r gwasanaethau technegol, ac i'r staff ymgyfarwyddo gyda threfnweithiau'r BBC cyn symud i Sgwâr Canolog yn 2020.

Bwriedir sefydlu pwyllgor cydleoli mewnol er mwyn rheoli'r prosiect fel a wnaethpwyd gyda'r prosiect Adleoli.

**Cronfa Ariannu Cynnwys ar gyfer Plant**

Nodwyd fod SWR wedi derbyn gwahoddiad i fod yn aelod o bwyllgor ymgynghorol y gronfa, sy'n cael ei gweinyddu gan y BFI. Holwyd a fyddai aelodaeth SWR yn creu sefyllfa o wrthdaro buddiannau, all olygu na fyddai modd i S4C ymgeisio ar gyfer arian o'r gronfa. Esboniwyd fod sefyllfa SWR fel Comisiynydd Cynnwys Plant a Phobl Ifanc S4C wedi ei gofnodi, a bod y gronfa wedi cadarnhau na fyddai hyn yn rhwystro S4C rhag ymgeisio i'r gronfa.

**Y Byd yn ei Le: Wythnos Cymru – Llundain**

Cynhaliwyd sesiwn gadarnhaol ar y cyd gydag ITV Cymru fel rhan o weithgareddau Wythnos Cymru Llundain, lle cafwyd trafodaeth am arweinyddiaeth yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol gydag SL a Betsan Moses. Roedd yn gyfle da i groesawu nifer o randdeiliaid o Lundain i un o weithgareddau S4C.

**Ymweliad ag MG Alba**

Cyfeiriodd OE at ei ymweliad ag MG Alba yn Stornoway. Roedd yn gyfle defnyddiol i drafod cydweithio gydag MG Alba, ac i ddysgu mwy am strwythur a heriau darlledu yn yr Alban, gan gynnwys gwasanaeth BBC Alba a gwasanaeth newydd BBC Scotland. Bwriedir parhau i ddatblygu'r cydweithio.

**Ymgyrch Ariannu Digonol**

Nododd OE fod gwaith paratoal ar y gweill ar gyfer Adolygiad Gwariant y Llywodraeth sydd i'w gynnal ym Mehefin, gydag Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr i ddilyn o fewn y

ddwy flynedd nesaf.

**Diweddariad parthed ymwneud S4C gyda tharged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg**

Cyflwynodd CHR ddiweddariad i'r Bwrdd parthed ymwneud S4C gyda tharged Llywodraeth Cymru o anelu am filiwn o siaradwyr Cymraeg. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar bartneriaethau iaith ac addysg, sef un o brif amcanion Strategaeth Partneriaethau S4C ar gyfer 2018-21.

Cyfeiriwyd at bartneriaethau penodol gyda'r sefydliadau canlynol.

**Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**
Roedd swyddogion y Ganolfan ac S4C yn cydweithio ar ddatblygu cynnwys darpariaeth S4C er mwyn cyd-fynd gyda maes llafur newydd y Ganolfan, gyda'r Ganolfan yn teilwra gwersi ar gyfer cyfresi penodol.

Nodwyd fod ystyriaeth yn cael ei roi i gyflwyno botwm a pharth 'dysgwyr' ar y wefan er mwyn hwyluso mynediad i gynnwys perthnasol.

**Mudiad Meithrin**
Roedd gwaith yn parhau ar ddatblygu MoU rhwng S4C a'r Mudiad.

Mae darpariaeth Cyw yn cael ei ddefnyddio fel rhan o gynllun Clwb Cwtch.

**Addysg**
Roedd cynllun peilot ar y gweill i ddefnyddio cyfres Amser Maith Maith yn Ôl i gyflwyno elfennau o hanes Cymru mewn ysgolion. Roedd cyngor arbenigol wedi ei roi gan athrawon sy'n datblygu manyleb dyniaethau'r cwricwlwm newydd. Roedd Canolfan Peniarth yn datblygu pecyn adnoddau i gyd-fynd gyda'r gyfres.

Nodwyd bod cyfres ar Hanes Cymru Trwy'r Iaith yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Mae cais wedi ei wneud am syniadau gan y sector ar gyfer ymgyrch uchelgeisiol, traws-lwyfan.

**Technoleg Iaith**
Roedd trafodaethau yn parhau gyda'r Llywodraeth yn uniongyrchol o ran datblygu meddalwedd a gwasanaethau adnabod llais.

**Partneriaid eraill**
Holwyd a oedd bwriad i ymestyn strategaeth S4C i gynnwys rhanddeiliaid eraill sy'n berthnasol i ddatblygiad yr iaith megis yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Mentrau Iaith. Esboniodd OE mai'r cam nesaf fydd ymestyn y cydweithio i'r mudiadau hyn. Awgrymwyd y dylid trafod cydweithio ym maes addysg gyda'r WLGA yn ogystal ag adran addysg y Llywodraeth, gan fod y gymdeithas yn cynrychioli pob un o awdurdodau addysg Cymru.

Croesawodd y Bwrdd yr adroddiad cynnydd ar bartneriaid addysg S4C, ond nodwyd fod y Pwynt Gweithredu'n ymwneud â deall rhagor parthed sut y mae S4C yn gallu cyfrannu at wireddu amcan strategaeth y Llywodraeth. Penderfynwyd y dylid ail-ymweld â strategaeth y Llywodraeth er mwyn dadansoddi'n fanylach a yw S4C yn cymryd yr holl gamau priodol tuag at gynorthwyo i gyflawni'r targed.

Penderfynwyd y byddai GW yn datblygu cynllun cyfathrebu er mwyn cyflwyno gweithgaredd S4C yng nghyd-destun targed y Miliwn o Siaradwyr Cymraeg.

**Paratoi ar gyfer Sesiwn Strategol fis Mai**
Cyflwynodd OE amlinelliad o'r hyn y bwriedir ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mai.

Nodwyd y byddai penawdau'r strategaeth yn arwain at drafodaeth am flaenoriaethau a gwariant mewn nifer o feysydd megis hyrwyddo a marchnata, cynnwys (teledu a digidol) a'r sector a'r diwydiant. Bydd y ddogfen yn ffocysu ar gamau tymor byr (ar gyfer 2019/20), tymor canol, a'r tymor hir (hyd at 2027).

Esboniodd OE fod gwaith ar y gweill er mwyn datblygu 'polisi diwydiannol' ar gyfer S4C. I'r perwyl hyn roedd gwaith ymchwil wedi ei gomisiynu er mwyn deall sefyllfa bresennol y diwydiant yng Nghymru.

Penderfynwyd y byddai OE yn cyflwyno'r opsiynau strategol ar gyfer ystyriaeth y Bwrdd ym mis Mai.

Penderfynwyd y byddai diweddariad chwarterol ar gyflawni amcanion y Cynllun Digidol a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Chwefror yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd.

**Adrodd yn ôl ar Amcanion Gweithredol 2018/19**
Cyflwynodd OE adroddiad ar lafar parthed cyflawni Amcanion Gweithredol 2018/19, a chynigiodd y Cadeirydd y dylid defnyddio ymateb gwerthuso'r Prif Weithredwr fel sail i'r gwaith o baratoi adroddiad cynnydd ffurfiol ar yr amcanion gweithredol.

Penderfynwyd cyflwyno Adroddiad Cynnydd ar Amcanion Gweithredol 2018/19 i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mai.

**Amcanion Gweithredol 2019/20**
Cafwyd trafodaeth am ddatblygu Amcanion Gweithredol ar gyfer 2019/20, a nodwyd yr angen i sicrhau fod perfformiad y gwasanaeth yn greiddiol i'r Amcanion. Cafwyd trafodaeth am amcanion perfformiad addas ar gyfer y gwasanaeth ar deledu ac ar-lein o fewn y fframwaith mesuryddion perfformiad.

Nodwyd yr angen i osod perfformiad S4C o fewn cyd-destun ecoleg ehangach defnydd o wasanaethau PSB a gwasanaethau cyfryngau ar-lein, gan gynnwys gwasanaethau SVOD. Nodwyd fod angen sicrhau y byddai unrhyw darged yn uchelgeisiol ond eto'n realistig o fewn patrymau defnydd cyfryngol ehangach.

Penderfynwyd y dylid datblygu Amcanion Gweithredol ar gyfer 2019/20 gan ddefnyddio Amcanion y Prif Weithredwr fel sail i'r amcanion. Wrth ystyried amcanion ar gyfer perfformiad y gwasanaeth, nodwyd fod fframwaith mesuryddion perfformiad eisoes yn bodoli, ac y dylid datblygu targed cadarnhaol ar gyfer sicrhau perfformiad derbyniol y gwasanaeth oddi fewn i'r fframwaith.

7. **Cyllideb 2019/20 a Chynllun Ariannol 5 Mlynedd drafft**
Cyflwynodd ShW y Cynllun Ariannol drafft ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd o 2019/20 hyd 2023/24, a oedd yn cynnwys Cyllideb drafft ar gyfer 2019/20.

**Gwariant Technegol ac Ystad Llanisien**
Roedd gwariant technegol yn lleihau dros gyfnod y cynllun, wrth i'r gwasanaethau technegol gydleoli gyda'r BBC o dan ddarpariaethau'r Cytundeb TSA. Wrth i gostau uniongyrchol S4C leihau, roedd costau cytundebol y TSA yn cael eu cyflwyno i'r Cynllun. Nodwyd nad oedd y ffigyrau hyn wedi eu cadarnhau gyda'r BBC hyd yma, ac y byddent yn cael eu cytuno'n derfynol yn dilyn cwblhau'r gwaith ar Ddyluniad Gweithredol y systemau darlledu newydd yn Sgwâr Canolog.

**Cronfa Bensiwn Ofcom**
Nodwyd fod y taliad olaf ar gyfer dileu diffyg Cronfa Bensiwn Ofcom wedi ei wneud ym mis Chwefror.

Cymeradwyodd y Bwrdd Gyllideb 2019-20 yng nghyd-destun y Cynllun Ariannol 5 mlynedd.

8. **Cyflwyniad Dadansoddi Misol**
Cyflwynodd CE yr Adroddiad Dadansoddi Misol ar gyfer Chwefror.

9. **Cyflwyniad Adolygiad y Strategaeth Ddrama Ryngwladol**

Cyflwynodd GML adolygiad o'r strategaeth ddrama ryngwladol, gan gynnwys adolygiad o berfformiad y strategaeth hyd yma a'r dramâu sydd wedi'u darlledu, amcanion y strategaeth i greu brand *Cymru Noir* a chyflwyno straeon a hunaniaeth Gymreig ar

lwyfan rhyngwladol, y cynllun i ail-sefydlu S4C fel partner cyd-gynhyrchu ac i ddatblygu modelau cyd-gynhyrchu newydd, a'r partneriaethau rhyngwladol sydd wedi eu sefydlu.

Roedd y strategaeth wedi esgor ar nifer o gyfresi safonol a llwyddiannus, a oedd wedi llwyddo i ddenu cynulleidfa newydd ac iau i'r sianel, yn ogystal ag ail-sefydlu S4C fel partner cyd-gynhyrchu drama ryngwladol.

Nodwyd nifer o heriau sy'n wynebu S4C ac sy'n effeithio ar allu S4C i ddarparu arlwy ddrama ryngwladol safon uchel, gan gynnwys meithrin talent yn y sector, denu'r dalent gorau i weithio i S4C yn hytrach nac ar gynyrchiadau i ddarlledwyr eraill a lefel isel cyllidebau S4C (o'u cymharu gyda drama ryngwladol eraill).

Cyflwynwyd nifer o argymhellion i'w hystyried ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys ystyried creu rôl newydd er mwyn cryfhau gallu S4C i ddatblygu syniadau newydd, blaenoriaethu lansio brand 'S4C Originals', ystyried o ddifrif gynyddu gwariant S4C ar ddrama ryngwladol a chyllidebau fesul awr, creu catalog o deitlau ar gyfer y farchnad ryngwladol, datblygu cynlluniau pellach ar gyfer meithrin a datblygu sgiliau creadigol a thechnegol, gan gynnwys datblygu awduron Cymraeg.

Roedd datblygu talent wedi bod yn flaenoriaeth bwysig i'r strategaeth. Roedd nifer ac ansawdd y dramâu sydd wedi eu darlledu yn dyst i'r dalent sy'n bodoli, ond nodwyd fod pryder yn parhau o ran ystod y gymuned o bobl sydd ar gael i ddatblygu ac ysgrifennu dramâu teledu.

Nodwyd y dylid ystyried yr angen i ddatblygu talent greadigol a thechnegol fel rhan o waith datblygu'r Polisi Diwydiannol arfaethedig.

Cyfeiriwyd at system gymhelliant ad-daliadau treth ar gyfer cynhyrchu drama yn y DU, a'r trothwy ariannol o wariant o o leiaf £1m yr awr. Roedd y trothwy yn golygu nad oes modd i S4C na phartneriaid a chwmnïau cynhyrchu sy'n gweithio i S4C elwa o'r system.

Nodwyd y dylid ystyried cymhlethdodau'r cymhelliant trethiannol presennol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Polisi Diwydiannol.

Holwyd sut oedd y Strategaeth Ryngwladol yn cyd-orwedd o fewn fframwaith gyffredinol drama, gan gynnwys mathau eraill o ddrama sydd ddim yn ffitio'r categori rhyngwladol neu *noir*. Esboniodd GML bod amrywiaeth eang o ddrama'n cael ei gynnig o fewn yr amserlen, gyda dramâu megis 35 Awr, Byw Celwydd a Parch yn cyfrannu at ystod o bynciau ac arddulliau.

Holwyd sut oedd y sector operâu sebon a'r dramâu rhyngwladol yn cyd-gyffwrdd, ac a oedd manteision neu heriau o ran datblygu sgiliau a syniadau. Esboniwyd bod yr operâu sebon ers eu sefydlu wedi cynnig cyfleoedd gwahanol i actorion a chriwiau, gan gynnig sefydlogrwydd nad oedd i'w gael o weithio ar brosiectau unigol. Roedd yn anodd ar brydiau i ddenu talent actio a thechnegol o fyd yr operâu sebon i gynyrchiadau unigol, oherwydd y sefydlogrwydd roedd yr operâu sebon yn ei gynnig, ac roedd hyn wedi bod yn broblem oesol i S4C a darlledwyr eraill.

Diolchodd y Cadeirydd i GML ar ran y Bwrdd am y cyflwyniad ac am arwain arlwy ddrama yn ystod y 7 mlynedd diwethaf, a'r llwyddiannau nodedig sydd wedi bod, a dymunodd yn dda iddi gyda'i her nesaf.

10. **Cyflwyniad Tracio Delwedd 2018/19**
Nodwyd fod cwmni Beaufort wedi cyflwyno Adroddiad Tracio Delwedd S4C ar gyfer 2018/19 ddoe. Darperir copi o'r adroddiad i'r Aelodau.

11. **Adroddiadau o gyfarfodydd y Pwyllgorau**
Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd y Pwyllgorau a gynhaliwyd ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror.

12. **Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Materion Eraill a gynhaliwyd ar 20fed Chwefror, 2019.**
Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Materion Eraill a gynhaliwyd

ar 20fed Chwefror i'r Bwrdd er gwybodaeth. Roedd HHE wedi cyflwyno adroddiad ar lafar i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Chwefror.

Nododd HHE fod Shirley Garrood wedi ei phenodi'n aelod o Fwrdd y BBC, ac yn gadeirydd y Pwyllgor Archwilio. ***Nododd HHE ei fod yn bwriadu ysgrifennu ati er mwyn sefydlu perthynas S4C gyda'r cadeirydd newydd.***

13. **Cyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 20fed Chwefror, 2019**
Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 20fed Chwefror i'r Bwrdd er gwybodaeth.

14. **Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Masnachol a gynhaliwyd ar 13eg Chwefror, 2019**
Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 13eg Chwefror i'r Bwrdd er gwybodaeth. Roedd OE wedi cyflwyno adroddiad ar lafar i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Chwefror.

15. **Rhaglenni'r mis aeth heibio**
Cafwyd trafodaeth estynedig am raglenni'r mis aeth heibio.

16. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**
Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.
Nodwyd y materion canlynol o Adroddiad y Wifren.

Newid Hinsawdd – roedd Ysgol Gartholwg wedi gwneud defnydd o'r gyfres, a holwyd sut oedd modd cymell mwy o ysgolion ac athrawon i fanteisio ar gynnwys S4C. Esboniwyd bod trafodaethau cyson yn cael eu cynnal gyda swyddogion addysg y Llywodraeth er mwyn annog ysgolion i ddefnyddio adnoddau S4C, ac i sicrhau bod adnoddau perthnasol S4C ar gael ar borth addysg 'Hwb'.

Cyfeiriwyd at gwestiynau parthed argaeledd Is-deitlau ar wasanaeth Clic. Esboniwyd bod is-deitlau ar gael, ond bod elfen o ddryswch neu nam technegol yn atal rhai pobl rhag eu derbyn. Nodwyd y bydd y Wifren yn cadarnhau'r sefyllfa gyda'r Adran Ddigidol er mwyn gallu darparu ateb clir i sylwadau pellach.

17. **Rhaglen Waith**
Cyflwynwyd Rhaglen Waith drafft y Bwrdd ar gyfer 2019 er gwybodaeth.

18. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.